

Nodyn Arweiniol ar Ddyfeisiau Monitro CO₂

Mae awyru da'n fesur rheoli allweddol wrth leihau'r risg o ymlediad COVID. Mae amrywiaeth o ddulliau ar waith i fesur a [gwella systemau awyru](#) yn y Brifysgol, gan gynnwys darparu dyfeisiau monitro CO₂ mewn rhai mannau.

Gall dyfeisiau monitro CO₂ ddangos a oes awyru digonol mewn man a helpu i nodi ardaloedd heb awyru da.

- Rhaid ystyried mesuriadau dros gyfnod penodedig, er mwyn rhoi darlun cyfannol o lefelau awyru yn y lle. Gall canlyniadau a geir ar adeg benodol fod yn gamarweiniol.
- Peidiwch ag ymyrryd â'r dyfeisiau monitro mewn unrhyw ffordd, drwy eu symud, newid gosodiadau, neu drwy anadlu'n agos at y dyfeisiau gan y gall arwain at ganlyniadau camarweiniol.

Nid yw lefelau CO₂ uwch yn cynnig mesuriad uniongyrchol o gysylltiad posib â COVID-19.

Isod, ceir rhestr o fesuriadau CO₂ ac arweiniad ar reoli mannau yn unol â'r darlleniadau hynny.

Darlleniad CO ₂ yn ôl cyfrannau fesul miliwn (ppm)	Cam gweithredu angenrheidiol
400ppm neu'n is (dangosydd gwyrdd ar ddyfais fonitro NDIR)	Defnyddiwch y templed a ddarperir isod er mwyn rhoi gwybod i estatesadmin@abertawe.ac.uk Mae hwn yn fwy nodweddiadol o ardaloedd awyr agored. Gall fod nam ar y ddyfais fonitro neu gall fod yn y lleoliad anghywir. Dylai Ystadau a Rheoli Cyfleusterau symud y ddyfais fonitro i adolygu'r darlleniadau.
400-800ppm (dangosydd gwyrdd ar ddyfais fonitro NDIR)	Mae'n debygol iawn bod awyru da yn y man. Nid oes angen gweithredu pellach. Dylid parhau i fonitro darlleniadau ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol.
800ppm-1500ppm (dangosydd oren ar ddyfais fonitro NDIR)	Lefelau CO ₂ uwch yn y lle. Nid yw hyn yn rheswm dros adael nac atal gweithgaredd. <ul style="list-style-type: none"> • Agorwch ddrysau (nid drysau tân) a/neu ffenestri lle y bo modd • Parhewch i fonitro'r lefelau wrth i'r sesiwn fynd rhagddi, er mwyn nodi newidiadau sylweddol.
1500ppm ac yn uwch (dangosydd coch ar ddyfais fonitro NDIR)	Os nodir y darlleniadau hyn ar ddechrau sesiwn neu os byddant yn parhau i fod yn gyson am 15 munud, cymerwch y cam canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Agorwch ddrysau (nid y drysau tân) a ffenestri nad ydynt ar agor eisoes • Cyfyngwch ar uchafswm y bobl yn yr ystafell neu gadewch yr ystafell am 15 munud er mwyn i lefelau'r CO₂ ostwng i lai na 1500ppm • Ystyriwch y gweithgarwch – a yw'n cyfrannu at gynyddu lefelau'r CO₂, e.e. ymarfer corff, gweiddi, canu a gweithgareddau sy'n cynhyrchu erosol.

Defnyddiwch y templed a ddarperir isod er mwyn rhoi gwybod i estatesadmin@abertawe.ac.uk am ddarlleniadau sy'n gyson yn oren neu'n goch.

Rhif ased dyfais fonitro CO ₂	Darlleniad dyfais fonitro CO ₂ (ppm)	Adeilad	Rhif ystafell	Amser	Nifer y bobl yn y lle